

Adroddiad Ôl Ymgynghori

Mackintosh Place – Gwelliannau i'r Priffyrdd

Rhif Project: CO18059

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 14 Rhagfyr 2018 a 4 Ionawr 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn gan iddo ddigwydd dros gyfnod gwyliau'r Nadolig. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fo modd.

O'r oddeutu 500 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 20 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 9 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 6 – Cefnogi'r cynnig (a chodwyd sylwadau ychwanegol)
- 1 – Gwrthwynebu'r cynnig
- 1 – Sylw / Awgrym Ychwanegol yn ymwneud â'r cynllun, ond ni ddatganwyd p'un a oedd yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig.
- Deiseb sy'n cynnwys 30 o lofnodion o 21 eiddo gwahanol ar hyd Mackintosh Place yn Cefnogi'r Cynnig

O'r holl ymatebion unigol uchod cafwyd sylwadau ychwanegol hefyd ynglŷn â'r cynlluniau a chyfeiriwyd atynt yng nghorff yr adroddiad hwn. Roedd nifer o breswylwyr hefyd a wrthwynebodd y cynnig yn eu gohebiaeth ar y sail eu bod yn credu ein bod yn bwriadu cael gwared ar y groesfan sebra bresennol ger Moy Road, er mai ei symud oedd y bwriad yn unig. Nid yw'r rhain, felly, wedi cael eu hystyried yn wrthwynebiadau i'r cynllun hwn.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn cyflwyno nifer o nodweddion Arafu Traffig megis byrddau arafu a chroesfannau sebra a fydd yn gwella diogelwch ar y ffyrdd yn gyffredinol i bawb sy'n defnyddio'r ffyrdd.

Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

Mater – Colli Mannau Parcio oherwydd y Groesfan Sebra

“Hoffwn i'r Cyngor ailystyried y cynlluniau sydd ar waith i osod croesfan sebra y tu allan i *tynnwyd rhif y tŷ* Mackintosh Place, Caerdydd...

Drwy roi croesfan y tu allan i *tynnwyd rhif y tŷ*, nid yn unig y byddwch yn cael gwared ar sawl man parcio ar ochr arall y ffordd, ond ar ein hochr ni o'r ffordd hefyd gan y gall ceir barcio ar un ochr rhwng 6.30pm ac 8am ar hyn o bryd. Bydd y groesfan yn gwneud sefyllfa wael hyd yn oed yn waeth gan y bydd y llinellau igam-ogam yn mynd â llawer o le...”

Yn y lleoliad hwn, mae dau Safle Bws a llinellau melyn dwbl eisoes sy'n gysylltiedig â'r safleoedd bus hyn er mwyn atal cerbydau rhag parcio yno. Bydd cyflwyno croesfan sebra ddyrchafedig yn y lleoliad hwn yn golygu na fydd yn cael effaith ar drigolion presennol yn parcio ar Mackintosh Place. Wrth symud y groesfan sebra ddyrchafedig hon i unrhyw fan arall ar hyd y rhan hon o Mackintosh Place, byddai colled o ran Parcio i Drigolion yn Unig sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar breswylwyr yn yr ardal.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol o'r galw am leoedd parcio a byddwn yn cymryd yr holl fesurau i sicrhau bod cymaint â phosibl o leoedd parcio ar gael o fewn y math hwn o gynllun. Fodd bynnag, mae diogelwch i gerddwyr a hwyluso symudiad cyfleus a diogel i gerddwyr, yn enwedig i'r ysgol ac adref, yn cael ei ystyried yn bwysig iawn. Yn unol â pholisïau a strategaeth y Cyngor, mae hwn yn bwysicach na darparu lleoedd parcio. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y sylwadau hyn a gweld yr hyn y gellir ei wneud yn ystod y broses ddylunio manwl i wella nifer y manau parcio sydd ar gael.

Felly cynigir parhau â'r cynllun ar sail cyflwyno'r Groesfan Sebra Ddyrchafedig fel y dangoswyd yn y cynllun yr ymgynghorwyd arno'n wreiddiol.

Mater – Dylid Defnyddio'r Cyllid Rhywle Arall

“Dylai'r arian sy'n cael ei wario ar y cynlluniau ffôl hyn gael ei wario ar gynnal a chadw'r ffyrdd yn gyntaf i sicrhau eu bod mewn cyflwr derbyniol. Honnir yn anghywir bod y rheswm dros y cynigion hyn ar sail diogelwch i gerddwyr ac i annog gyrwyr i ddefnyddio dulliau eraill o drafndiaeth.”

“Rwy'n gwrthwynebu'r cynigion i osod croesfannau sebra dyrchafedig ar hyd Mackintosh Place am y rhesymau canlynol.

Dylid gwario'r arian sy'n cael ei wastraffu ar y polisïau ffasiynol, oferedd hyn ar gynnal a chadw'r ffyrdd er budd yr holl ddefnyddwyr ffyrdd, cerddwyr, defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus yn ogystal â gyrwyr nad oes ganddynt ddewis ymarferol arall i ddefnyddio car.”

Caiff y cynllun hwn ei ariannu gan “Lywodraeth Cymru: Ariannu Teithio Llesol”, cafodd yr arian hwn ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru ar ôl i ni ddatblygu'r cynllun hwn a bodlonodd y cynllun ei meini prawf o ran gwella diogelwch ar y ffyrdd. Gan fod yr arian hwn wedi cael ei ddyrannu er mwyn cyflawni'r project hwn, ni ellir ail-ddyrannu'r arian tuag at faterion megis cynnal a chadw'r Priffordd. Felly dylid cyfeirio unrhyw faterion sy'n ymwneud â chynnal a chadw'r ffyrdd at ein ‘Tim Rheoli Asedau’.

Mater – Mae'r Cynllun yn Gwahaniaethu yn Erbyn Pobl Anabl

“Mae'r cynigion yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl drwy eu hatal rhag byw eu bywydau mewn modd cadarnhaol.”

Caiff yr holl nodweddion corfforol sy'n cael eu cyflwyno'n rhan o'r cynllun hwn, megis y “Byrddau Arafu” a'r “Groesfan Sebra Ddyrchafedig” eu cyflwyno yn unol â chanllawiau a safonau dylunio presennol sy'n pennu'r graddiannau a'r onglau; dylid cyflwyno'r nodweddion hyn ar y briffordd. Cyhyd â bod cerbydau'n arafu'n ddigonol wrth deithio dros y nodweddion hyn, ni fydd unrhyw effaith andwyol ar yrwyr / teithwyr wrth deithio drostynt.

Mae hefyd yn werth nodi y bydd cyflwyno'r nodweddion corfforol hyn ac arafu cerbydau ar hyd y llwybr hwn yn gwella cyfleusterau croesi i bobl anabl yn ogystal â phobl nad ydynt yn anabl ar hyd y llwybr hwn.

Mater – Bydd y Cynllun hwn yn cynyddu Llygredd Aer

“Mae'r difrod a brofwyd i'r ansawdd aer yn sgil y cynlluniau hyn sydd heb eu dylunio'n dda yn gorbwyso'r manteision a honnir o ran diogelwch.”

“Er bod ymchwil wedi dangos y gall mesurau arafu traffig, gan gynnwys twmpathau cyflymder, achosi cynnydd mewn allyriadau cerbydau, caiff y mesurau hyn eu gosod mewn ardaloedd preswyl gan amlaf â llif traffig isel. Mae unrhyw gynnydd mewn allyriadau o ganlyniad i osod twmpathau cyflymder yn debygol o fod yn isel dros ben ac yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ansawdd yr aer yn yr ardal. Yn hynny o beth, mae angen i'r Cyngor gydbwyso'r manteision a ddaw o fesurau arafu traffig, o ran achub bywydau a lleihau anafiadau, ac unrhyw gynnydd bach mewn allyriadau y gallai'r mesurau hyn ei achosi. Bydd mesurau arafu traffig yn parhau i fod yn bwysig ar rai ffyrdd ac mewn perthynas ag ymyriadau polisi eraill, er enghraifft, bydd hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol diogel amgen yn helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd a gwella'r ansawdd aer drwy leihau teithiau mewn cerbydau.”

Gweler isod y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn cefnogi'r cynnig:

“Rydym yn croesawu'r byrddau arafu arfaethedig ar Mackintosh Place”

Diolch am roi gwybod i'r preswylwyr am y cynllun hwn. Rydw i'n ei gefnogi ac yn teimlo bod mawr ei angen.”

“Rwy'n cerdded ar hyd y ffordd hon yn ddyddiol – mae bron pob gyrrwr yn gyrru'n gynt na 20mya, ac mae llawer yn mynd yn gynt na 30mya. Ychydig o funudau'n unig sydd cyn fy mod yn gweld car yn teithio 40mya neu 50mya. Rwy'n croesi'r ffordd yn ddyddiol gyda phlentyn 4 oed ac mae'n ffordd beryglus. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn digwydd yn fuan.”

“Rwy'n gryf iawn o blaid gwella Mackintosh Place i gerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd sy'n fwy agored i niwed. Rwy'n hynod o gefnogol o ailosod y groesfan sebra hefyd yn Moy Road. Mae'n groesfan rwy'n ei defnyddio sawl gwaith y dydd wrth fynd â'm mhlant i'r ysgol a'r feithrinfa a'u casglu oddi yno ac rydw i wedi gweld pobl yn gyrru dros y groesfan honno mewn modd anhygoel (ac nid mewn ffordd dda!).”

“Mae mawr angen y byrddau arafu neu'r twmpathau. Rydym yn gweld gyrrwyr ffôl yn gyrru'n ddi-hid ar gyflymdra uchel iawn ar hyd Mackintosh Place.”

“Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn rhoi ein cefnogaeth iawn i gynnig ymgynghoriad Cyngor Caerdydd (Cyf: C018059) i wella cyfleusterau croesfan i gerddwyr ar Mackintosh Place CF24 4RP

“Rydym ni, y preswylwyr, yn gofyn yn syml i gael byw mewn amgylchedd diogel lle y gall yr henoed, plant, cerddwyr, beicwyr a gyrrwyr eraill sy'n glynu wrth y gyfraith deimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio Mackintosh Place. Bydd y mesurau arfaethedig yn mynd yn bell iawn tuag at greu amgylchedd gwell i bawb sy'n ymwneud â'r ardal.”

“Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cefnogi cynllun y Cyngor i wneud Mackintosh Place yn stryd ddiogelach i gerddwyr, beicwyr a phreswylwyr drwy gyflwyno'r mesurau a gynigiwyd yn y Dogfennau ymgynghori.”

“Mae ychwanegu croesfannau ychwanegol i gerddwyr yn ddatblygiad cadarnhaol, ond nid oes unrhyw fantais weledol resymol i groesfan ddyrchafedig cyhyd â bod y croesfannau'n cael eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd.”

Gweler isod y sylwadau ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori am faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad:

Mater – Nid oes angen Croesfan Ychwanegol ar hyd y ffordd hon

“Nid oes angen croesfan sebra ychwanegol. Mae'r ffordd yn hir iawn ac ychydig o bobl fyddai'n ei defnyddio.”

Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun, cynhelir arolygon sy'n ystyried ffactorau megis llif cerddwyr, llif cerbydau a chyflymdra cerbydau ac ati... Nodwyd bod cerddwyr yn croesi Mackintosh Place rhwng y cyffyrdd â Dalcross Street a Tŷ'n-y-coed Place. Gan fod Safle Bws eisoes yn bodoli yn y lleoliad hwn, mae'n debygol bod y safle bws hwn hefyd yn cynyddu nifer y cerddwyr ar y stryd hon ac felly rydym yn hapus i fwrw ymlaen â'r Groesfan Sebra ychwanegol hon yn y lleoliad hwn.

Mater – A fydd y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ac a fydd modd i'r Cyhoedd fod yn bresennol

“A fyddai modd i chi gadarnhau pryd fydd y mater hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, ac a fydd modd i aelodau'r Cyhoedd ddod i'r cyfarfod.”

Gallaf gadarnhau nad yw'r cynnig hwn na Chynlluniau Projectau Trafnidiaeth eraill yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor. Maent yn mynd drwy ein proses ymgynghori ar Brojectau Trafnidiaeth safonol.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fo modd. Mae'r penderfyniad o ran p'un ai a fydd cynllun yn parhau neu beidio yn seiliedig ar nifer y preswylwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion. Caiff pob sylw a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn ei ystyried yn ofalus er mwyn ein galluogi ni i wneud penderfyniad ar y camau y dylid eu cymryd i ymdrin â'r materion a godwyd. Ar ôl gorffen yr Adroddiad Ôl-Ymgynghoriad a'i drafod â'r Aelodau Ward Lleol, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion ac yn rhoi ymateb y dyluniwr iddynt, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ystyrir yn briodol. Yna, bydd hyn yn nodi y cynnydd a fwriedir i'r cynllun, gan gynnwys unrhyw newidiadau, adolygu neu ganslo'r cynnig presennol.

Pan fydd yr adroddiad wedi'i orffen, bydd copi ohono'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar www.caerdydd.gov.uk/TransportProjects gan ddewis y ddolen ôl-ymgynghoriad dan y teitl cynllun perthnasol. Fel arall, mae copi papur ar gael drwy e-bostio ProjectauTrafndiaeth@caerdydd.gov.uk Caiff hysbysiadau safle eu harddangos ar y stryd o fewn yr ardal Cynllun Traffig arfaethedig a fydd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am ganlyniad y broses ymgynghori (gan eu cyfeirio at wefan y Cyngor i gael rhagor o wybodaeth), gan na fydd unrhyw lythyru ychwanegol yn cael ei gynnal.

Mater – Ni Chynigiwyd Nodweddion Arafu Traffig rhwng cyffordd Moy Road a Albany Road / Heol y Plwca

“Rydym yn pryderu na fydd unrhyw fwrdd arafu yn cael ei osod ar ran gyntaf Mackintosh Place, rhwng cyffordd Crwys Road, Albany Road, Heol y Plwca, Richmond Road (sydd wedi dwyn yr enw Saesneg “Death Junction”) a Moy Road. Mae cerbydau sydd wedi bod yn cicio mewn traffig ar y ffordd hyn yn aml yn cyflymu cyn gynted â'u bod yn troi i mewn i Mackintosh Place, gan anwybyddu'r terfyn cyflymder o 20mya.”

“Rydym hefyd yn credu y bydd cerbydau hyd yn oed yn fwy tebygol o anwybyddu'r terfyn cyflymder heb fwrdd arafu na chroesfan sebra ar ffordd hir Mackintosh Place o “Death Junction” a thu hwnt i Dalcross Street, gan gynyddu'r perygl i gerddwyr ymhellach.”

“Yn gryno, rydym yn teimlo bod y cynlluniau arfaethedig yn methu gwella'r rhan fwyaf peryglus o Mackintosh Place rhwng Death Junction a Dalcross Street. Hoffwn weld bwrdd arafu ychwanegol yn y rhan hon, ac er ein bod yn deall bod angen croesfan sebra ger Dalcross Street, rydym yn teimlo y dylai hyn fod yn ychwanegol i'r groesfan bresennol yn Moy Road, ac nid yn ei lle.

“Yn ôl y cynnig ni fydd unrhyw fyrddau arafu yn cael eu gosod rhwng gwaelod Mackintosh Place a Moy Road felly bydd ceir yn teithio ar gyflymder uchel iawn. Bydd bywydau'n cael eu colli os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen.

Ar hyn o bryd, mae'r cynnig hwn yn cynnwys cyflwyno Nodweddion Arafu Traffig rhwng y gyffordd â Pen-y-wain Road a Moy Road yn unig. Nid oes digon o gyllid yn rhan o'r cynnig hwn i gyflwyno Nodweddion Arafu Traffig ychwanegol i'r de o'r gyffordd â Moy Road. I gyflwyno unrhyw fyrddau arafu ychwanegol ar hyd y llwybr hwn byddai angen ail-greu lôn gerbydau yn llawn o amgylch y bwrdd arafu a fyddai'n cynyddu costau'r cynllun yn sylweddol. Mae'r cyllid ar gyfer y Cynllun hwn wedi cael ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw arian ychwanegol ar gael tuag at gyflwyno nodweddion ychwanegol. Fodd bynnag, os, yn ystod y cam cynllunio manwl, y bydd amcangyfrif o'r gost o gyflawni'r cynllun yn dod o fewn y gyllideb, mae'n bosibl y gallwn gyflwyno marciau ffordd coch ychwanegol ar wyneb y ffordd gyda marciau cylchol a marciau sy'n ailadrodd i atgyfnerthu'r ffaith i yrwyr eu bod mewn parth terfyn cyflymder 20mya.

Mae unrhyw gerbydau sy'n teithio ar hyd y rhan hon o Mackintosh Place o fewn parth 20mya presennol ac yn nesáu at gyffordd pum braich, felly dylai cerbydau eisoes fod yn arafu wrth nesáu at y lleoliad hwn.

Yn sgil gweithredu'r cynllun hwn, bydd y gwaith o fonitro ar ôl y cynllun yn cael ei gynnal yn y lleoliad hwn i asesu cyflymder cerbydau yn yr ardal. Os oes unrhyw broblemau gyda chyflymder cerbydau drwy'r rhan hon o Mackintosh Place yna gellid ychwanegu cynllun at ein rhestr o raglenni'r dyfodol a'i weithredu pan/os bydd arian yn dod ar gael.

Mater – Ail-leoli'r groesfan bresennol ger y gyffordd ar Moy Road

“Yn dilyn y pwynt hwn: rydym yn pryderu am y cynnig i symud y groesfan sebra sydd ar gyffordd Moy Road a Mackintosh Place ar hyn o bryd.”

“Rydw i wedi edrych ar yr ymgynghoriad yn fanwl ac rwy'n gwrthwynebu'r mesurau arafu traffig arfaethedig yn enwedig o ran symud y groesfan sebra bresennol o gyffordd Moy Road i gyffordd Dalcross Street.”

Yr hyn sydd ei angen yw cadw'r groesfan sebra bresennol a gosod un arall ar Dalcross Street gyda mwy o fyrddau arafu rhwng cyffordd Moy Road a'r “Death Junction”.

“Hoffwn wneud sylw ynglŷn â gosod y groesfan sebra ddyrchafedig ger Moy Road. Yn ôl y diagram, mae'n ymddangos y cynigir iddi cael ei rhoi ger y gyffordd yn uniongyrchol. Bydd hwn yn ei gwneud yn anodd i yrwyr droi allan o Moy Road, yn enwedig wrth yrru o gyfeiriad y dwyrain tuag at y gogledd. Os bydd cerddwyr ger y groesfan neu'n ei chroesi, bydd digon o le i'r cerbyd groesi'r ffordd ac aros; os bydd ceir y tu ôl i'r cerbyd sy'n aros ac yn methu gweld y rhwystr, byddant yn methu deall pam mae'r gyrrwr yn aros; ac mae perygl posibl na fydd modd gweld y cerddwyr sydd eisoes ar y groesfan wrth i'r cerbyd droi tua'r gogledd tuag atynt...

A fyddai modd i'r groesfan sebra arfaethedig gael ei symud yn ddigon pell i'r naill gyfeiriad neu'r llall i fyny neu'n is i lawr Mackintosh Place, gan barhau i fod yn agos at Moy Road?”

“Ein pryder olaf yw ynglŷn â'r cynnig i osod y groesfan sebra mor agos i'r safle bws ger Dalcross Street. Rydym yn aml wedi gweld bod nifer o yrwyr ar Mackintosh Place yn nesáu at y groesfan sebra ar gyflymder uchel iawn. Nid ydynt yn arafu oni bai eu bod yn sicr bod rhywun yn aros i groesi'r ffordd. Felly mae perygl y bydd unrhyw gerddwr sy'n defnyddio'r groesfan ac wedi'i guddio gan fws llonydd yn cael ei fwrw gan gerbyd sy'n teithio'n gyflym”

Gallaf gadarnhau, yn rhan o'r cynnig hwn, yr oedd yr hysbysiad safle yn nodi “Symud y Groesfan Sebra bresennol a'i newid yn Groesfan Sebra Ddyrchafedig”. Gallai hyn fod wedi achosi dryswch o ran lleoliad newydd y groesfan sebra. Er eglurder, cynigir symud y groesfan sebra bresennol tua 10m yn nes at gyffordd Moy Road fel y dangosir ar yr hysbysiad safle. Mae'r groesfan sebra ddyrchafedig rhwng cyffordd Dalcross Street a Tŷn-y-coed Place yn groesfan sebra ddyrchafedig newydd ychwanegol.

Mewn perthynas â'r cynnig i symud y Groesfan Sebra Ddyrchafedig yn agosach at y safle bws, mae nifer o sefyllfaoedd tebyg o amgylch y Ddinas sydd wedi'u lleoli'n agos iawn at Groesfannau Sebra. Mae'n werth nodi bod y safle o fewn terfyn cyflymder o 20mya ac mae'r groesfan sebra yn ddyrchafedig hefyd, sy'n golygu y dylai cyflymder y cerbydau arafu'n naturiol wrth nesáu at y lleoliad hwn. Yn ystod y cam dylunio manwl, bydd arwyddion rhybuddio ymlaen llaw hefyd yn cael eu cyflwyno i rybuddio gyrrwyr o'r twmpath ffordd arfaethedig. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r lleoliad hwn

Cynhaliwyd arolygon â cherddwyr cyn datblygu'r cynllun hwn, a nodwyd bod y groesfan bresennol ger cyffordd Moy Road yn cael ei ddefnyddio llawer yn ystod y cyfnodau prysuraf. Fodd bynnag, roedd nifer uchel o gerddwyr hefyd yn croesi Mackintosh Place heb gerdded i fyny i'r groesfan bresennol ac yn dilyn llwybr mwy uniongyrchol ar draws Moy Road o'r dwyrain i'r gorllewin neu o'r gorllewin i'r dwyrain. Felly cynigir symud y groesfan yn nes at

Moy Road er mwyn annog cerddwyr i groesi'r ffordd gan ddefnyddio'r cyfleuster croesfan sebra swyddogol. Bydd y groesfan sebra bresennol yn cael ei diweddaru i groesfan sebra ddyrchafedig er mwyn helpu i arafu cerbydau. Bydd y groesfan hon hefyd yn cael ei symud tua 10 metr i'r de o'i lleoliad presennol, ac felly ni fydd yn cael unrhyw effaith ar fannau parcio yn yr ardal gan fod marciau ffordd igam-ogam eisoes yn bodoli yn y lleoliad hwn.

Os bydd lleoliad arfaethedig y Groesfan Sebra yn cael ei symud ymhellach i ffwrdd o'r gyffordd mae'n debygol na fydd y broblem o gerddwyr yn peidio â defnyddio'r groesfan yn newid ac felly ni fydd unrhyw fudd i newid lleoliad y groesfan bresennol. Cynigir felly y dylid symud y groesfan sebra ddyrchafedig arfaethedig yn unol â'r cynllun yr ymgynghorwyd arno'n wreiddiol.

Mater – Cais am adeiladu cyffordd 49 Mackintosh Place mewn modd ymwithiol i atal cerbydau rhag parcio yn y lleoliad hwn.

“Ond a yw'r cynllun yn cynnwys culhau'r ffordd ychydig ac ymestyn y cwrbyn yn 41 Moy Road? Os felly, a oes unrhyw ffordd y gellir gwneud rhywbeth tebyg ar y gornel gyferbyn (yn 49 Mackintosh Place)? Mae'n aml yn cael ei ddefnyddio gan lorïau dosbarthu a phobl yn parcio yno er gwaethaf y llinellau melyn dwbl, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i yrwyr droi i'r dde ar Mackintosh Place.”

Yn rhan o'r cynnig hwn, cynigir creu croesfan sebra ddyrchafedig er mwyn cynyddu gwelededd cerddwyr sy'n croesi yn y lleoliad hwn gan leihau lled y lôn gerbydau y mae angen i gerddwyr ei chroesi. Fel y nodir, mae llinellau melyn dwbl eisoes yn bodoli ar gyffordd Moy Road / Mackintosh Place, ac mae'r cyfyngiadau hyn yn atal pobl rhag parcio yn y lleoliad drwy'r dydd. Fodd bynnag, gan fod galw uchel am barcio yn yr ardal hon, mae'r llinellau melyn dwbl yn caniatáu i gerbydau lwytho / dadlwytho nwyddau yn y lleoliad am gyfnodau byr iawn. Pe bai'r gyffordd hon yn cael ei chreu mewn modd ymwithiol hefyd, byddai'n lleihau cyfleoedd i lwytho / dadlwytho yn yr ardal yn sylweddol. Mae hefyd yn werth nodi y bydd y groesfan sebra yn y lleoliad hwn bellach yn ddyrchafedig, a bydd hynny'n helpu i arafu cerbydau o amgylch cyffordd Moy Road / Mackintosh Place. Felly ni chynigir creu cyffordd ymwithiol yn y lleoliad hwn.

Mater – Symud Safle Bws Presennol

“(Yn rhan o'r datrysiad, gallai'r safle bws ar waelod Mackintosh Place gael ei symud i fyny gan o leiaf 10 troedfedd o'i lleoliad presennol y tu allan i dafarn George i gael gwared ar y tagfeydd o ran cerddwyr, ceir, beicwyr a phobl yn aros ger y safle bws yn y man hwn.)”

Gan ei fod yn Safle Bws sydd eisoes yn bodoli ac yn cael ei ddefnyddio tipyn, byddai angen anfon y cais hwn ymlaen at y Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus i ymchwilio iddo, ac ni fyddai'n rhan o'r ymgynghoriad hwn gan y byddai angen cynnal ymgynghoriad ychwanegol cyn gwneud unrhyw addasiadau i leoliad presennol y Safle Bws.

Mater – Manylion Technegol o ran Dyluniad y Cynllun

“Rhaid i’r groesfan sebra bresennol gael ei goleuo’n well, dylai’r pyst gynnwys goleuadau LED. Mae’n anodd iawn i yrwyr weld y groesfan. Dylai’r ardal groesi gael ei chodi fel croesfan bwrdd a bydd hynny’n gorfodi ceir i arafu hefyd.”

“Er ein bod yn cefnogi’r cynllun yn llawn, byddwn yn annog Swyddogion Uwch / y Pwyllgor i ofyn i Beirianwyr gynnwys y canlynol yn y dyluniad terfynol:

- Ni ddylai’r byrddau arafu arfaethedig yn 157 a 195 Mackintosh Place gyfyngu ar unrhyw gyfleusterau parcio, sy’n bodoli ar hyn o bryd.
- Dylai’r cynigion gynnwys goleuadau o safon ddigonol i oleuo’r gwaith newydd
- Dylai Peirianwyr y Cyngor ymgymryd ag arolwg topograffig a draeniau llawn fel nad yw’r cynigion yn rhwystro rhag draenio’r lôn gerbydau a’r troedffyrdd yn effeithiol. Rhaid i’r gwaith newydd ystyried yr angen am ddraeniau newydd.
- Dylid gwneud pob ymdrech i wasanaethu a gwella’r draeniau presennol tuag at y dyfodol.

Mae Mackintosh Place yn ffordd hir gydag ychydig iawn o gylïau, ac mae nifer ohonynt mewn cyflwr gwael yn sgil rwbwl adeiladwyr. Mae rhan ganolig y ffordd yn wastad, felly dylid cynnwys darpariaeth ddraenio ychwanegol yn rhan o’r gwaith. Nid ydym am i broblemau godi yn y dyfodol.”

Mewn perthynas â’r byrddau arafu sy’n cael eu cyflwyno yn rhan o’r cynllun hwn, byddant yn byrddau arafu lled llawn yn unol ag eraill o amgylch y Ddinas. Nid yw’r byrddau arafu hyn yn cyfyngu ar unrhyw gyfleusterau parcio gan y bydd modd i gerbydau parcio yn y lleoliadau hyn o hyd.

Pan gaiff ein cynlluniau o gysyniad y cynllun cychwynnol eu hanfon at ein Tîm Dylunio Manwl i’w dylunio’n swyddogol, caiff Arolygon Draenio, Arolygon Topograffig a nifer o arolygon eraill eu cynnal ar bob adeg ar y cam hwn yn rhan o’r gwaith dylunio. Bydd goleuadau LED yn cael eu cyflwyno i’r groesfan bresennol ac unrhyw groesfannau arfaethedig newydd yn unol â Safonau Dylunio presennol y Cyngor. Fodd bynnag, bydd yr holl sylwadau ychwanegol hyn yn cael eu trosglwyddo i’r Tîm Dylunio Manwl er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o’r pryderon sydd wedi’u codi.


Mater – Cais am ymchwilio i’r gyffordd pum braich ar Mackintosh Place / Richmond Road

“Hefyd, a ydych yn ymgynghori ar y gyffordd pum braich ar waelod Mackintosh Place? Mae’n benodol o beryglus beicio ar draws y gyffordd hon ar yr adegau prysuraf, ac mae’n beryglus ar bob adeg wrth droi i’r dde o Mackintosh Place ar Richmond Road”

Mae’r lleoliad hwn yn cwmpo y tu allan i raddfa’r cynllun hwn. Dylid anfon unrhyw faterion ynglŷn â diogelwch ar y ffyrdd neu geisiadau am Fesurau Diogelwch ar y Ffyrdd at projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at “Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa’r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW”.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy of the post-consultation report.